## Cân o Wyleidd-dra

Dewch, dychwelwn drachefn at yr ARGLWYDD; fe'n drylliodd, ac fe'n hiachâ;
fe'n trawodd, ac fe'n meddyginiaetha.
Fe'n hadfywia ar ôl deuddydd, a'n codi ar y trydydd dydd, inni fyw yn ei ŵydd.
'Oherwydd ffyddlondeb a geisiaf, ac nid aberth, gwybodaeth o Dduw yn hytrach na phoethoffrymau.'
Hosea 6.1–2, 6

## Colect ar gyfer Dydd Mercher y Lludw

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
nad wyt yn casáu un dim a wnaethost
ac wyt yn maddau pechodau pawb sy'n edifeiriol,
crea a gwna ynom galonnau newydd a drylliedig
fel y bo i ni, gan ofidio'n ddyledus am ein pechodau
a chyfaddef ein trueni, gael gennyt ti, Dduw'r holl drugaredd,
faddeuant a gollyngdod llawn.

Amen.



# Gweddïo dros Weinidogaethau

# Y Grawys 2026

Ar **Ddyddiau'r Catgoriau** gelwir arnom i gofio am alwad Duw arnom ni ac i weddïo dros bawb sy'n dymuno ymateb. Mae ein Dyddiau Catgoriau nesaf ar
**25, 27 a 28 Chwefror**.

Gofynnwn i chi weddïo dros holl arweinwyr yr eglwys, y rhai lleyg a'r rhai a ordeiniwyd, a thros bawb sy'n ystyried eu galwad.

Os hoffech chi ystyried galwad Duw arnoch chi, holwch arweinwyr eich Ardal Genhadaeth. Cewch ddysgu mwy am alwad a gweinidogaeth yn https://dioceseofstasaph.org.uk/vocations-and-ministry/ neu sganiwch y cod QR isod.



Yna dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, 'Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i.'
Mathew 16.24



Y cysegr ym Mhennant Melangell

## Gweinidogaeth a Chenhadaeth yn Esgobaeth Llanelwy

**Corff Crist:** Ni yw Corff Crist! Rydym ni'n cael ein galw i fyw ac i adrodd stori fawr cariad Duw atom, bob dydd. Rydym ni'n cael ein galw i dyfu ffydd, dod â gobaith a dangos cariad.

**Gweinidogaeth a Gomisiynir yn Lleol:** Ydych chi'n cael eich galw i arwain addoliad, i ofalu am bobl neu i rannu'ch ffydd yn eich Ardal Genhadaeth? Os felly, ewch i gael sgwrs ag Arweinydd eich Ardal Genhadaeth (AAG) neu'r offeiriad lleol.

**Gweinidogaeth Leyg Drwyddedig:** Ydych chi'n cael eich galw i bregethu ac arwain addoliad, i fod yn gaplan yn eich cymuned neu mewn sefydliad, neu i fod yn gaplan gyda phlant a phobl ifanc? Os felly, gallai Gweinidogaeth Leyg Drwyddedig fod yn addas i chi. Gofynnwch i'ch offeiriad a'ch AAG eich rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwedigaethau.

**Y Weinidogaeth Ordeiniedig:** Ydych chi'n cael eich galw i fod yn was, yn fugail, yn negesydd, yn wyliedydd ac yn stiward? Ydych chi'n cael eich galw i weinyddu'r cymun, i bregethu'r ffydd, ac i fod yn fugail ac yn arweinydd yn yr eglwys? Gofynnwch i'ch offeiriad a'ch AAG eich rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwedigaethau.

**Arloesi:** Ydi Duw yn eich galw chi i wneud rhywbeth arall, i arloesi ac i wneud rhywbeth newydd, mewn ffyrdd newydd, mewn llefydd newydd, gyda phobl newydd? Gofynnwch i'ch offeiriad neu AAG i'ch rhoi mewn cysylltiad â Chynghorydd Galwedigaethau.

**Corff Crist:** Beth bynnag yw'ch galwad a'ch gweinidogaeth, sut allwch chi fyw eich ffydd yn Nuw a'i rhannu â phobl eraill heddiw? Os hoffech ddarganfod mwy am hyn, ewch am sgwrs gydag arweinydd eich eglwys.



### Hoffem i chi weddïo dros:

Holl bobl Dduw mewn eglwysi, caplaniaethau ac ysgolion ledled ein hesgobaeth.

Trwy gydol tymor y Grawys, boed i ni gerdded yn ffordd y Groes a chanfod ynddi ffordd y bywyd a thangnefedd.



Diwrnod y Weinidogaeth Leyg Drwyddedig yng Nghadeirlan Llanelwy

**Y rhai sy'n paratoi i gael eu hordeinio'n Offeiriaid ym Mehefin 2026**

David Dobbs
Jampa King
Sharon Morgan
Ian Williams
Glyn Wise

**Y rhai sy'n paratoi i gael eu hordeinio'n Ddiaconiaid yn 2026**

Rob Dawson
Cheryl Hesketh
Elin Douglas Jones
Vicki Stait
Paul Tipney-Hicks
Reuben Zwiggelaar

**Y rhai sy'n cael eu hyfforddi i fod yn Offeiriaid ac yn Ddarllenydd yn 2026**

Deborah Catterall (Offeiriad)
Sharon Dean (Offeiriad)
Rhys Parry (Offeiriad)
Joshua Schoch (Offeiriad)
Hazel Lobo (Darllenydd)

**Y rhai sy'n paratoi i fynd i baneli dirnadaeth a, thrwy ras Duw, ddechrau hyfforddiant yn 2026.**

**Pawb sy'n ceisio dirnad galwad Duw ar eu bywydau.**